



Gorffennaf 1af 2021

Annwy riant neu warchodwr,

Rydym wedi bod yn gweithio gydag Alpine dros yr wythnosau diwethaf i gynnal y gwasanaeth bws cost-effeithiol yr ydym wedi'i redeg dros y blynnyddoedd diwethaf i gefnogi myfyrwyr sy'n byw yn Neganwy a Chyffordd Deganwy, sy'n eu galluogi i ddod yn ddiogel i'r ysgol. Ynghyd â grŵp o rieni, rydym wedi ystyried nifer y bobl a allai fod angen mynediad i'r gwasanaeth, ble maent wedi'u lleoli a diogelwch y gwahanol opsiynau ar gyfer arosfannau.

O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, mae'n bleser gennyf ddweud ein bod wedi cytuno y bydd Alpine yn darparu un bws i'r ardal a fydd yn codi myfyrwyr yn yr arosfannau canlynol yn y bore:

- Ysgol Deganwy 08.26
- Cyffordd Overlea Avenue gydag Albert Drive 08.30
- Pen yr Allt (Cyffordd Coop) 08.34
- Arhosfan y brif ffordd y tu allan i Orsaf Cyffordd Llandudno 08.38.

Yn y prynhawn bydd y bws yn gollwng myfyrwyr yn yr arosfannau canlynol:

- Arhosfan y brif ffordd y tu allan i Orsaf Cyffordd Llandudno
- Pen yr Allt (Cyffordd Coop)
- Ysgol Deganwy.

Bydd y gwasanaeth hwn yn cychwyn ar **DDYDD LLUN MEDI 6ed** a bydd ar gael am gost flynyddol o **£285**.

Felly bydd myfyrwyr yn gallu prynu tocyn blynyddol am £285.00, yn daladwy naill ai gydag arian parod neu siec (i Ysgol Aberconwy) neu drwy 10 rhandaliad debyd uniongyrchol o £28.50 y mis.

Yn y naill achos neu'r llall, byddwn yn ddiolchgar pe gallech lenwi'r ffurflen atodedig a'i dychwelyd i'r ysgol erbyn dydd Llun, Gorffennaf 12<sup>fed</sup>, neu ei hanfon trwy e-bost atom ar [info@aberconwy.conwy.sch.uk](mailto:info@aberconwy.conwy.sch.uk)

Er y gwneir pob ymdrech i foddhau myfyrwyr sy'n gwneud cais i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn, dylid nodi mai dim ond nifer cyfyngedig o docynnau y gallwn eu darparu, sy'n cyfateb i nifer y seddi ar y bysiau. O'r herwydd, bydd darpariaeth o'r fath yn cael ei dyrannu ar sail "y cyntaf i'r felin".

Hyderwn y bydd y gwasanaeth hwn yn diwallu anghenion y rhai sydd wedi gofyn amdano, ond byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth, y llwybr a'r gost yn flynyddol gyda'r 'grŵp defnyddwyr' sydd wedi'i sefydlu. Byddwn yn gofyn am eich barn yn barod ar gyfer yr adolygiad hwn yn ystod tymor yr haf.

Yn gywir iawn,

Ian Gerrard  
Pennaeth

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

MORFA DRIVE  
CONWY LL32 8ED

+44 (0)1492 593243  
+44 (0)1492 592537

INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK  
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK

BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE